

GWYBODAETH AM WYLANOD



LLUNIAU GAN Y DAILY POST

01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru





CYFLWYNIAD

Cynefin draddodiadol ar gyfer gwylanod yw clogwyni morlin. Maent yn oportiwnyddion sydd yn dysgu'n gyflym ac yn barod i fanteisio ar amrywiaeth o ffynonellau bwyd. Maent yn hela pysgod a chreaduriaid y môr eraill, er y bydd rhai, gan gynnwys y Penwaig a'r wylan Gefnddu Leiaf, yn cymryd burgyn, bwyd wedi'i daflu a bwyd heb ei warchod yn ogystal â wyau a chywion adar môr eraill. Bellach, mae'r Penwaig a'r wylan Gefnddu leiaf wedi mentro yn fewndirol, yn enwedig ers dechrau'r 20ed ganrif. 'Roedd Ddeddf Aer Glân 1956 yn atal gweithredwyr gwastraff rhag llosgi sbwriel, a credir fod digonedd o fwyd mewndirol wedi dod yn ddewis arall hawdd i ffynonellau bwyd traddodiadol i'r gwylanod. Yn ogystal, mae canol llawer o drefi a dinasoedd yn aml yn cynnig cyflenwad bwyd rhwydd gyda cynwysyddion prydau parod wedi'i taflu, a rhai pobl yn eu bwydo'n fwriadol.

CYNEFIN

Mae paru sydd wedi bondio yn bridio ym mis Ebrill ac yn dechrau adeiladu nyth o ddechrau mis Mai ymlaen. Yn draddodiadol, mae gwylanod yn nythu ar glogwyni lle mae'r pâr yn cafnu nifer o bantiau hyd at 15 modfedd ar draws a phant canolog hyd at 8 modfedd o led a dyfnder maint wy. Caiff y nythod eu leinio â phlu a llystyfiant neu deunyddiau sydd ar gael, yna dewisir un o'r nythod i ddodwy'r wyau. Yn y trefi, mae'r nythod yn cael eu adeiladu ar doeau fflat a parapedi, a gallent fod o wellt, glaswellt, brigau, papur ac unrhyw ddefnydd arall mae'r wylan yn medru dod o hyd i yn gyfleus. Os caiff safle bridio ei sefydlu, yna bydd y gwylanod yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac oherwydd eu bod yn greaduriaid cymdeithasol bydd gwylanod eraill yn dechrau ymgartrefu ardal ac yn nythu ar adeiladau cyfagos. Gall y nythod fod yn fawr ac os cânt eu gwneud o ddeunydd a gasglwyd dros sawl blwyddyn, gallent fod yn drwm, a all achosi problemau gyda strwythurau gwan.

CYLCH BYWYD

Ceir dau neu dri o wyau eu dodwy o ddechrau mis Mai ymlaen ac yn cael eu deori am tua tair wythnos. Mae'r cywion yn tyfu'n gyflym ac yn weithredol, sy'n golygu eu bod yn aml yn disgyn o'u nythod. Yn y dref, mae hyn yn aml yn golygu na allant ddychwelyd i'w nythod. Bydd cywion bach yn marw os nad ydynt yn cael eu dychwelyd, ond bydd y cywion mwy yn cael eu diogelu gan eu rhieni a'u bwydo ar y ddaear. Mae'r cywion fel arfer yn magu plu yn ddeuddeg wythnos ac yna'n cymryd tua tair mlynedd i gyrraedd aeddfedrwydd a dechrau bridio. Gall disgwyliad oes i wylanod fod hyd at 30 mlynedd.

NIWSANS A RISG IECHYD

Gall gwylanod eu hystyried yn risg i iechyd y cyhoedd ac yn niwsans o fewn yr amgylchedd drefol, yn enwedig pan fydd yn bresennol mewn niferoedd mawr. Gallent hefyd beri risg o wenwyn bwyd a/neu



halogiad o fewn busnesau bwyd, a pheri risgiau iechyd a diogelwch o fewn lleoliadau masnachol eraill. Gall nythod a baw adar hefyd arwain at blâu pryfed o fewn anheddau.

Mae llawer o bobl yn gweld bod gwylanod yn niwsans am sawl rheswm, ac mae'r prif rai wedi'u rhestru isod:



SŴN a achosir gan wylanod yn galw, yn enwedig ar gyfddydd, a'u troedion trwm. Heblaw hynny, mae gwylanod yn dechrau ymgartrefu ym mis Ebrill ac yn nythu o ddechrau mis Mai ymlaen, a gall y cweryla a'r galwadau paru aflafar ddechrau gyda'r wawr a pharhau trwy'r dydd.



LLANAST a achosir gan faw adar sy'n baeddu golchiad ar y lein, ceir, gerddi, pobl a llwybrau cerdded. Mae baw gwylanod hefyd yn llithrig a gall beri risg iechyd a diogelwch, yn enwedig ar lwybrau troed, grisiau allanol ac allanfeydd tân.



IECHYD: Er nad oes fawr o dystiolaeth wedi'i adrodd am risg iechyd sy'n gysylltiedig â cyffyrddiad gyda baw gwylanod, oherwydd natur eu bwydo e.e. ysglyfaethwyr, mae'n debygol iawn y gall eu baw drosglwyddo amrywiaeth eang o facteria, tebyg i golomennod. Yn gyffredin ag adar eraill, gall nythod gwylan gynnal amrywiaeth eang o rywogaethau o bryfed megis chwain, trogod a gwiddon, a all heigio tai ac adeiladau masnachol ac yn medru arwain ar broblemau iechyd.



DIFROD I ADEILADAU a achosir gan wylanod yn pigo ar ddeunydd toi, a thrwy nythod a baw adar sy'n medru blocio ffliwiau nwy, simneiau a system awyru. Yn ogystal, gallent blocio gwteri a rhwystro draeniau, gan achosi llifogydd neu ddal lleithder yn erbyn adeilad – dau fater sydd â photensial i gyfrannu at damprwydd mewn strwythurau adeilad. Gall baw adar hefyd gyflymu dirywiad adeiladau a cherfluniau.



DIOGELWCH: Weithiau caiff gwylanod eu ystyried yn ymosodol, wrth iddynt blymio a disgyn ar anifeiliaid a phobl. Gall hyn fod oherwydd i'r gwylanod fod yn gystadleuol â gwylanod eraill, ac felly'n aml yn ceisio dwyn bwyd cyn iddo gael ei daflu neu'i ollwng. Mae'r oedolion hefyd yn ymdrechu i warchod eu cywion a'u nythod yn ystod y tymor bridio (rhwng mis Ebrill ac Awst). Gall hefyd fod yn beryglus iawn os caiff ffliwiau nwy eu rhwystro gan ddeunyddiau nythu – gall hyn gael canlyniadau difrifol os caiff mygdarth nwy eu hatal rhag dianc yn effeithiol.

Y GYFRAITH

Mae niferoedd y Gwylanod Cefnddu Leiaf a'r Penwaig yn dirywio ac mae'r gwylanod Penwaig ar Restr Goch yr IUCN (Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac Adnoddau Naturiol) o Rywogaethau dan fygythiad. Yn ogystal, mae gwylanod, gan gynnwys y nythod a'r cynefinoedd, yn cael eu diogelu dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, a gallent ond eu rheoli os caniateir trwydded. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi trwyddedau cyffredinol er mwyn caniatáu rhai gweithgareddau penodol, a



fyddai fel arall yn anghyfreithlon, ac mae'r rhain yn rhestru'r adar sy'n medru cael eu rheoli am resymau iechyd a diogelwch y cyhoedd. Rhoddir pob trwydded gyffredinol ar gyfer diben penodol, ac mae'n nodi fod dulliau nad yw'n angeuol yn cael eu blaenoriaethu.

RHEOLI

Mae dulliau rheoli gwylanod yn cynnwys dinistrio nyth, amnewidiad wy ac iro wy, er ei bod yn anodd sicrhau fod y rywogaeth gywir yn cael ei dargedu, a graddfa'r rheoli yn debygol o gael ei effeithio gan argaeledd safleoedd nythu amgen. Gellir defnyddio adar ysglyfaethus a dyfeisiadau sonig i gyflenwi safleoedd ar raddfa fawr, megis safle tirlenwi.

Y dull mwyaf llwyddiannus o reoli gwylanod yw diogelu'r adeilad i atal gwylanod rhag glanio ac adeiladu nythod, er nid yw hyn yn ddatrysiad sydyn. Mae angen cynllunio a gweithredu ymhell cyn y tymor nythu. Cyfyngedig fydd llwyddiant diogelu adeilad mewn lleihau niferoedd gwylanod trefol os na ellir diogelu pob adeilad neu safleoedd nythu posib.

Mae deunyddiau profi yn cynnwys:

- Systemau sbigo (*Spikes*), o'r maint briodol ar gyfer rheoli gwylanod, ar safleoedd clwydo posibl.
 - Sbigau simnai – i atal gwylanod rhag nythu ar doeau, yn enwedig ar eiddo preswyl. Mae'n well i osod rhain y tu allan i'r tymor bridio.
 - Sbigau byr
- Systemau rhwyd o'r maint gywir i rwystro gwylanod rhag glanio a nythu
- Gwifrau postyn a sbring ar safleoedd clwydo posibl
- Systemau gwifren drydanol ar safleoedd glanio a nythu
- Geliau aroglus
- Geliau "tân" gweledol (gel di-wenwynig sy'n twyllo adar i feddwl fod tân yn bresennol)

Oherwydd problemau gyda gosod a'r perygl o drapio adar yn neu o dan y rhwydi a'r gwifrau, mae'r Cyngor yn cynghori y dylai'r dulliau hyn bob amser gael eu gwneud, neu ar ôl cymryd cyngor gan arbenigwr cymwys.

Mae'r RSPB yn ffafrio datrysiadau nad yw'n angeuol, ac yn credu y dylid lladd gwylanod dim ond fel y dewis olaf, yn enwedig gan fod sawl rhywogaeth o bryder cadwraethol.

Y dull arall effeithiol yw i leihau argaeledd bwyd i geisio peidio annog gwylanod. Dylai mesurau diogelu adeiladau gael eu cyfuno gyda lleihau argaeledd ffynonellau bwyd trwy ymgymryd ag arferion rheoli gwastraff gadarn gan awdurdodau lleol, yn ogystal â rheoli gweithfeydd trin gwastraff a safleoedd tirlenwi.



SUT ALLWCH CHI HELPŪ?

- ❗ **Osgoi bwydo gwylanod lle y gallai arwain at broblemau.** Bydd bwydo gwylanod yn eu denu ac o bosibl llygod mawr, ac efallai y byddent yn dysgu i gipio bwyd. Er hyn, i fod yn effeithiol mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y tomenni tirlenwi yn cael eu rheoli'n dda a bod y strydoedd yn cael eu glanhau yn rheolaidd.
- ❗ **Dylai ffynonellau bwyd gael eu cyfyngu** – peidiwch â gadael bwyd o gwmpas tu allan caffis, gerddi te neu giosgau glan môr.
- ❗ **Gwaredu â sbwriel bwydadwy yn ofalus** a'i storio mewn cynwysyddion wedi'i gorchuddio, rhai na all gwylanod fynd atynt. Mae bagiau bin plastig ar y strydoedd yn wahoddiad agored i wylanod a dylai hyn gael ei osgoi. Ymddengys fod llai o broblemau yn y manau lle mae awdurdodau lleol yn darparu biniau olwyn na'r manau lle caiff sbwriel ei gasglu mewn sachau plastig, sy'n hawdd i'w tyllu gan gathod, cŵn, gwylanod a llwynogod.
- ❗ **Peidiwch â thafllu sbwriel na sbarion bwyd ar y llawr** – mae hyn yn drosedd a gallwch fod yn agored i ddirwy. Ewch a'ch sbwriel a'ch gwastraff adre, neu ddefnyddio bin gyda chaead.
- ❗ **Peidiwch ag annog adar mawr i mewn i'r ardd** – mae'n achosi niwsans i gymdogion, gall ddenu llygod mawr, a gall annog gwylanod i nythu gerllaw.
- ❗ **Gwarchodwch eich eiddo eich hun** – defnyddio dulliau ffisegol neu ddefnyddio contractwr trwyddedig i amnewid wyau neu symud nythod.

